# Diweddariad Chwarterol Ystadegau Cymru

# Mehefin 2018

**Dyma'r diweddaraf mewn cyfres o ddiweddariadau chwarterol i ddefnyddwyr ystadegau o Gymru ar ein datblygiadau, ein hymgyngoriadau a'n cynlluniau diweddaraf.**

**Ceir rhestr lawn o'n cyhoeddiadau mwyaf diweddar ar ein calendr cyhoeddiadau**

## Cyfiawnder Cymdeithasol a Chydraddoldeb

**Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (WIMD)**
Rydym yn brysur gyda gwaith datblygu WIMD 2019, yn trefnu cyfarfodydd i grwpiau o arbenigwyr, rhanddeiliaid a defnyddwyr, ac yn siarad am y gwaith hwn mewn amryw o fforymau, gan gynnwys PCYC. Y garreg filltir nesaf fydd cynnal ymgynghoriad cyhoeddus yn yr hydref. Oherwydd y gwaith hwn a nifer o faterion yn ymwneud â data, ni fyddwn yn cyhoeddi unrhyw ddiweddariadau pellach ar gyfer dangosyddion yn 2018. Mae mwy o fanylion am hyn i'w gweld ar ein gwefan.

**Cartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog (HBAI)**
Diweddarodd yr Adran Gwaith a Phensiynau ei chyfres ar Gartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog ym mis Mawrth 2018, a gwnaethom gyhoeddi'r ffigurau allweddol ar gyfer Cymru. Rydym yn dechrau gweithio ar ddadansoddiadau a thablau manwl ynghylch data tlodi Cymru. Os oes gennych adborth neu syniadau am ddadansoddiadau newydd a allai fod yn ddefnyddiol, nawr yw'r amser i roi gwybod i ni.

Gallwch anfon adborth atom neu ofyn am ragor o wybodaeth yma.

## Iechyd a'r Boblogaeth

**Ystadegau Gwasanaethau Cymdeithasol**
Mae'r allbynnau terfynol o gasgliadau data newydd y gwasanaethau cymdeithasol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) wedi cael eu cyhoeddi. Mae'r rhain i'w gweld ar ein gwefan ac ar StatsCymru. Mae modd gweld yr holl gyhoeddiadau drwy glicio yma.

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol hefyd wedi cyhoeddi ystadegau ar gyfer marwolaethau y gellir eu hosgoi 2016

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi cyhoeddi rhagor o wybodaeth am waith y rhaglen trawsnewid ystadegau mudo. Cysylltwch i gael rhagor o wybodaeth.

## Trafnidiaeth

**Cyhoeddiadau**

Rydym wedi cyhoeddi datganiadau ar amrywiol bynciau dros y misoedd diwethaf. Cyn hir byddwn yn cyhoeddi adolygiad o'r Erthygl Ystadegol Cyflymdra Cerbydau ar Draffyrdd yng Nghymru, ac rydym yn gweithio ar erthygl debyg ar gyfer yr A55.

**Stats Cymru**
Mae'r ychwanegiadau diweddaraf at setiau data StatsCymru yn cynnwys cludo nwyddau ar y ffyrdd ac ystadegau chwarterol dros dro ar gyfer damweiniau ar y ffyrdd . Rydym hefyd wedi ychwanegu data lefel damweiniau (gyda chyfres o newidynnau nad ydynt yn sensitif). Hefyd diweddarwyd y setiau data canlynol: traffig ffyrdd, troseddwyr moduro, trafnidiaeth y môr, cerbydau gwasanaethau cyhoeddus, a thrafnidiaeth rheilffyrdd.

## Llesiant Cymru

Yn dilyn cyhoeddi adroddiad statudol cyntaf Llesiant Cymru 2016-17, rydym wedi cynnal arolwg o ddefnyddwyr yr adroddiad ac rydym wrthi'n dadansoddi'r canlyniadau ar hyn o bryd. Rydym yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o brif gasgliadau'r arolwg yn ystod y misoedd nesaf.

Rydym wedi parhau i ddiweddaru'r dangosyddion wrth i ddata newydd ddod ar gael. Ers cyhoeddiad mis Medi, mae dangosyddion 4, 7, 12, 16, 17 18, 21 a 31 ar y wefan wedi cael eu diweddaru. Mae dangosydd 13 wedi cael ei ddiwygio.

Bydd ail adroddiad Llesiant Cymru yn cael ei gyhoeddi ym mis Medi 2018.

## Yr Economi a'r Farchnad Lafur

**Proffiliau Rhanbarthol Marchnad Lafur ac Economaidd**
Cyhoeddwyd y proffiliau rhanbarthol marchnad lafur ac economaidd diweddaraf ar 26 Ebrill 2018 – mae'r tablau Gwerth Ychwanegol Gros wedi cael eu diweddaru i gynnwys data awdurdodau lleol, ac mae gweddill y data sydd wedi eu rhyddhau wedi cael eu symleiddio i'w gwneud yn haws eu deall.

**Gwerth Ychwanegol Gros (GVA)**
Cyhoeddwyd data Gwerth Ychwanegol Gros ar gyfer 2016 ym mis Rhagfyr 2017 – mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi darparu amcangyfrif sengl o'r Gwerth Ychwanegol Gros a elwir yn ddull cytbwys (GVA(B)), sy'n ddefnyddio cryfderau'r dulliau incwm (GVA (I)) a chynhyrchiant (GVA(P)). Mae'r amcangyfrifon hyn yn cael eu hystyried yn ystadegau arbrofol ar hyn o bryd, ond bellach y nhw yw dull Gwerth Ychwanegol Gros swyddogol y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

## Yr Amgylchedd a Thai

**Arolwg Cyflwr Tai Cymru (WHCS)**
Daeth y gwaith maes i ben ddiwedd mis Ebrill gyda 2,550 o arolygon llawn wedi'u cwblhau, 50 yn fwy na'r 2,500 a ddymunwyd. Mae hyn yn llwyddiant ardderchog gan gofio ym mis Ionawr, 2/3 o'r ffordd drwy'r gwaith maes, dim ond hanner yr archwiliadau gofynnol oedd wedi'u cwblhau. Bydd y canlyniadau cyntaf ar gael yn mis Tachwedd 2018, a bydd yr amcangyfrifon tlodi tanwydd wedi'u diweddaru erbyn diwedd 2018. Anfonwyd holiadur byr at randdeiliaid a defnyddwyr i ganfod y ffordd orau o ledaenu'r data. Caiff yr atebion eu dadansoddi ochr yn ochr â'r trafodaethau a gynhelir gyda'n cydweithwyr ym maes polisi. Cyhoeddir crynodeb o'r gwaith hwn, ynghyd â'n cynlluniau ar gyfer lledaenu data, ar ein tudalen gwefan yn ystod y misoedd nesaf. Byddwn yn siarad â defnyddwyr Tlodi Tanwydd yn benodol dros yr haf ynghylch dosbarthu'r ffigurau diweddaraf.

**Adnodd Dadansoddol y Stoc Tai yng Nghymru (HSAR)**
Y ffocws yn ystod hanner cyntaf 2018 oedd datblygu dull o brofi cysyniad sy'n cysylltu'r setiau data sydd wedi eu cynhyrchu hyd yn hyn, datrys unrhyw broblemau technegol sy'n ymwneud â chysylltu a chadw data ac ystyried opsiynau i ganiatáu i ddefnyddwyr allanol fynd at yr Adnodd. Caiff adroddiad cynnydd ar yr Adnodd ei gyhoeddi dros y misoedd nesaf, a bydd cais yn cael ei wneud i Bwyllgor Moeseg yr Ystadegydd Gwladol er mwyn cymeradwyo'r Adnodd yn foesegol.

**Datganiadau Ystadegol am Dai**
Am y tro, nid ydym yn dangos y data am ôl-ddyledion rent tai cymdeithasol ar ein gwefan oherwydd pryderon y gall rhywfaint o'r data a ddarparwyd gan landlordiaid cymdeithasol fod yn anghyson. Ar hyn o bryd, rydym yn gweithio gyda darparwyr y data i ddeall yr anghysondebau hyn, ac i gasglu data diwygiedig cyson.

**Gwaith Trawslywodraethol ar Dai**
Yn ddiweddar, cyhoeddodd y Prif Ystadegydd blog yn amlinellu gwaith sy'n mynd rhagddo i ystyried ffyrdd o wella ystadegau tai ar draws y DU er mwyn cael gwell sylfaen o dystiolaeth.

**Ystadegau Amaethyddol prawf wedi cael eu hychwanegu at StatsCymru**
Ym mis Awst 2017, cafodd rhywfaint o ddata ynghylch ystadegau amaethyddiaeth ei ychwanegu at StatsCymru am y tro cyntaf. Mae'r data yn ymwneud ag amcangyfrifon ar gyfer 2014, ond y prif nod yw canfod i ba raddau y byddai rhyddhau data o'r fath yn werthfawr i ddefnyddwyr. Rydym yn gofyn am adborth ar fanylion y dadansoddiadau sy'n cael eu dangos a'r categorïau sydd ynddynt.

ystadegau ar gyfer cymru statistics for wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Arolwg Cenedlaethol

**Canlyniadau a dadansoddiadau 2016-17**
Ar 28 Mehefin 2017, fe wnaethom gyhoeddi'r datganiad cyntaf arolwg 2016-17, ynghyd â thablau a siartiau yn ein dangosydd canlyniadau excel. Ar ôl hynny, fe wnaethom gyhoeddi cyfres o allbynnau am bynciau penodol yn seiliedig ar ganlyniadau 2016-17: Ers y diweddariad diwethaf, rydym wedi cyhoeddi bwletinau ar y pynciau canlynol:

- Lles meddyliol
- Clyw a gofal llygaid
- Gwasanaethau ambiwlans brys
- Gwasanaethau meddygon teulu
- Tlodi
- Gwasanaethau ysbyty
- Addysg

Mae modd gweld bwletinau blaenorol a rhai sydd ar y gweill ar Wefan yr Arolwg Cenedlaethol:

**Arolwg Cenedlaethol – 2017-18**
Mae'r gwaith maes bellach wedi ei gwblhau; bydd y canlyniadau cyntaf yn cael eu cyhoeddi ar 20 Mehefin 2018.
**Arolwg Cenedlaethol – 2018-19**
Mae cyfnod y gwaith maes wedi dechrau ac mae'r pynciau sydd wedi eu cynnwys i'w gweld ar ein gwefan.
**Arolwg Cenedlaethol – 2019-20:** Rydym wrthi yn datblygu holiadur 2019-20. Mae'r cwestiynau sydd eisoes wedi eu cymeradwyo ar gyfer cael eu cynnwys i'w gweld yma

Mae rhagor o wybodaeth am yr arolwg ar gael ar wefan yr Arolwg Cenedlaethol neu drwy gysylltu â arolygon@llyw.cymru

## Addysg

**Cafodd yr allbynnau canlynol eu cyhoeddi ers y diweddariad diwethaf:**

- Canlyniadau arholiadau terfynol 2018
- Cyraeddiadau a'r hawl i brydau am ddim
- Cyflawniad academaidd yn ôl nodweddion disgyblion
- Absenoldeb o ysgolion yn ôl nodweddion disgyblion

Cafodd Fy Ysgol Leol ei diweddaru ar 31 Ionawr i gynnwys y diweddaraf am ganlyniadau Cyfnod Allweddol 4, presenoldeb, a chategoreiddio ysgolion.

Caeodd yr ymgynghoriad ar newidiadau i'r rheoliadau ar gyfer cyhoeddi canlyniadau asesiadau athrawon ar 30 Ionawr 2018, ac fe gyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion ym mis Mai. Bydd y newidiadau hyn â goblygiadau ar gyfer cyhoeddi ystadegau swyddogol. Fodd bynnag bydd yr holl ddata'n parhau i gael eu casglu a bydd dadansoddiadau'n parhau i fod ar gael ar gais.

Addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith, a dysgu cymunedol i oedolion. Cyhoeddwyd datganiadau ystadegol a data StatsCymru ar gyfer tueddiadau dysgwyr, a deilliannau ar gyfer blwyddyn academaidd 2016/17, ym mis Chwefror 2018.

## Manylion Cyswllt ar gyfer Ystadegau Llywodraeth Cymru

**Ymholiadau cyffredinol yn ymwneud ag ystadegau**
E-bost: desg.ystadegau@llyw.cymru Ffôn: 0300 060 4400

**Yn benodol i'r pwnc**
http://llyw.cymru/statistics-and-research/about/contacts-statistics/?lang=cy

**Twitter**
https://twitter.com/ystadegaucymru

**Gwasanaeth newyddion a hysbysiadau e-bost Llywodraeth Cymru**
http://llyw.cymru/news-alerts/?lang=cy

**Ymholiadau Gweinyddol**
E-bost GweinydduGGD@llyw.cymru